# Canllaw Gwefru'r Fflyd

# Fleet Charging Guide



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Mathau o Beiriannau Gwefru**

Mae gennym ddau fath o beiriant gwefru at ddefnydd y fflyd.

Mae **peiriannau gwefru chwim DC** yn rhoi pŵer o 50 kW (125A) gan ddefnyddio naill ai safonau gwefru CHAdeMO neu CCS. Dyma'r math mwyaf cyffredin o bwyntiau gwefru chwim ar gyfer cerbydau trydan ar hyn o bryd, ar ôl bod yn safonol am bron degawd. Dyma'r unedau mwy o faint gyda cheblau wedi'u clymu.
Mae'r ddau gysylltydd fel arfer yn gwefru cerbyd trydan i 80% mewn 20 munud i awr yn dibynnu ar gapasiti'r batri a faint o bŵer oedd arno i ddechrau.

Mae **peiriannau gwefru AC cyflym** yn darparu rhwng 7kW a 22kW yn dibynnu ar y cerbyd a chyflymder y cyflenwad. Gall y Renault Kangoo dynnu ar 22kW tra bod gan rai cerbydau trydan eraill drawsnewidydd sy'n cyfyngu'r gwefru i 7kW. Bydd peiriant gwefru 7kW yn ailwefru cerbyd trydan cydnaws gyda batri 40 kWh mewn 4-6 awr, a pheiriant gwefru 22 kW mewn 1-2 awr.

Dyma'r pyst a welwch yn y depos a gallant wefru 2 gerbyd ar y tro. Rhaid i chi ddefnyddio'r cebl math 2 a ddarperir gyda'r cerbyd wrth gysylltu o'r cerbyd i'r ChargePoint.

Ar gyfer y ddau beiriant gwefru bydd y cebl yn cloi i mewn i'r cerbyd wrth i'r gwefru ddechrau a bydd yn datgloi pan fyddwch yn gorffen gwefru.



Mae hwn yn soced CCS a fydd ar Renault Kangoo. Meddyliwch am hyn fel eich twll tanwydd. Bydd ffordd i agor y twll gwefru ar unrhyw gerbyd yn yr un ffordd y byddech yn gwneud ar gerbyd petrol/diesel. Cofiwch ei gau ar ôl i'r cebl gael ei dynnu.



Dyma'r ddau fath o gebl a fydd yn cysylltu i'r soced. Dylai cebl math 2 i fath 2 (ar ochr dde'r ddelwedd hon) gael ei gyflenwi gyda phob cerbyd. Bydd y cebl hwn yn cysylltu o'r peiriant gwefru i'r soced ar y pyst gwefru cyflym.
Y cebl ar y chwith yw'r hyn sydd wedi'i gynnwys ar yr unedau gwefru chwim wedi'u clymu ac sy'n plygio yn uniongyrchol i'r soced o'r ChargePoint. Bydd yn fwy trwchus na'r cebl math 2.

Bydd y rhan fwyaf o gerbydau yn gwefru'n gyflymach i 80% ond wedyn bydd y cyflymder gwefru yn gostwng. Os ydy'r batri dros 80%, bydd y car yn arafu'r pŵer gwefru uchaf i osgoi mynd dros derfyn foltedd y celloedd (a fyddai'n niweidio'r batri). Ar gyfer y peiriannau gwefru cyflym nid yw hyn mor amlwg â pheiriant gwefru chwim.

**Sut i gychwyn tâl**

Bydd dechrau gwefru yn cael ei wneud trwy'r cerdyn RFID a neilltuir i bob cerbyd ac y mae'n gweithio mewn ffordd debyg i gerdyn tanwydd arferol. Tapiwch y cerdyn ar y darllenydd RFID i ddechrau gwefru a thapiwch eto i stopio.

**Peiriannau Gwefru cyflym:**

- Yn gyntaf, agorwch y twll gwefru ar eich cerbyd a chysylltwch eich cebl o'r twll hwn i'r gwefrydd.
- Ewch i'r man gwefru â'r sgrin.
- Cyffyrddwch â'r sgrin i'w goleuo a'i hactifadu.
- Dewiswch y symbol RFID ar y sgrin gyffwrdd.
- Gosodwch eich cerdyn RFID ar y symbol darllenydd cerdyn o dan y sgrin.
- Bydd rhifau piler yn ymddangos ar y sgrin a'r math o wefrydd cyfatebol.
- Dewiswch eich rhif piler o'r symbolau – bydd hyn yn troi'r golau ar y piler yn las sy'n dangos bod y piler a'r gwefrydd yn weithredol.
- Tapiwch y cerdyn ar y darllenydd RFID eto i stopio gwefru pan fo angen.

**Peiriannau Gwefru chwim:**

- Yn gyntaf, agorwch y twll gwefru ar eich cerbyd a chysylltwch y cebl o'r man gwefru i'r twll gwefru ar eich cerbyd.
- Cyffyrddwch â'r sgrin i'w goleuo a'i hactifadu.
- Dewiswch y symbol RFID ar y sgrin gyffwrdd.
- Gosodwch eich cerdyn RFID ar y symbol darllenydd cerdyn o dan y sgrin.
- Dewiswch y symbol CCS ar y sgrin.
- Dylai hyn wedyn droi'n las a dechrau gwefru.

**Arferion gwefru**

Defnyddiwch y rhwydwaith gwefru ar draws y sir i wefru pan fo angen a defnyddiwch y seilwaith cywir sydd ar gael. Os oes gennych ½ awr ar gyfer cinio, defnyddiwch beiriant gwefru chwim. Os oes gennych gyfarfod sy'n para 1-2 awr, defnyddiwch y peiriant gwefru cyflym.

Nid oes angen aros yn hirach nag awr ar unrhyw un o'r peiriannau gwefru chwim.

**Lleoliadau**

Lleoliadau depo presennol y gellir eu defnyddio i wefru cerbydau fflyd:

- **Depo Trostre** – Heol Trostre, Llanelli. SA14 9RA
    - 6 pheiriant gwefru cyflym 7-22kW a 3 pheiriant gwefru chwim 50 kW
- **Depo Cillefwr** - Heol Allt-y-cnap, Tre Ioan, Caerfyrddin, Dyfed, SA31 3QX
    - 4 peiriant gwefru cyflym 7-22kW a 2 beiriant gwefru chwim 50 kW
- **Depo Glanaman –** Glanaman, Rhydaman, SA18 1LQ
    - 2 beiriant gwefru 7-22kW

Safleoedd eraill y gellir eu defnyddio:

- **Hwb Gwefru Chwim Cross Hands** - Cross Hands, Cross Hands, Llanelli. SA14 6RJ
    - 4 peiriant gwefru chwim 50kW ac 1 peiriant gwefru chwim iawn 150kW
- **Maes parcio'r Castell –** Llanymddyfri, SA20 0AP.
    - 2 beiriant gwefru chwim 50kW
- **Maes Parcio Carregaman** – Rhydaman, SA18 3AD
    - 2 beiriant gwefru chwim 50kW
- **Maes Parcio Teras yr Orsaf** – Llanybydder, SA40 9XX
    - 2 beiriant gwefru chwim 50kW

**Sylwch y dylid blaenoriaethu gwefru mewn lleoliadau depo gan fod y cyfraddau gwefru yn rhatach.**

**Bydd y rhwydwaith gwefru ehangach a safleoedd eraill ar gael yn fuan.**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council